David Gauke AS
Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau

11 Hydref 2017

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol

Credyd Cynhwysol

Ysgrifennaf yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Fel rhan o ymchwiliad yn edrych ar wneud i'r economi weithio i bobl sydd ag incwm isel, cymerom dystiolaeth yn ddiweddar gan yr academyddion Dr Sharon Wright, Prifysgol Glasgow a Dr Lisa Scullion, Prifysgol Salford ar rôl budd-daliadau lles wrth gefnogi pobl ar incwm isel. Mae'r ddwy ohonynt hefyd yn rhan o'r prosiect Welfare Conditionality: Sanctions, Support and Behaviour Change.

Treuliwyd rhan helaeth o'r sesiwn yn archwilio effaith cyflwyno Credyd Cynhwysol hyd yma. Clywsom nad yw Credyd Cynhwysol yn ei ffurf bresennol yn debygol o fodloni rhai o'i amcanion.[1] Yn benodol, er y bydd pobl yn cael eu gwthio tuag at waith, bydd yn waith nad yw'n debygol o godi pobl allan o dlodi ac felly bydd tlodi mewn gwaith yn parhau i gynyddu.

Ar wahân i'r mater sylfaenol hwn o bryder, clywsom hefyd am rai materion gweithredol, sy'n achosi pryder i ni ynghylch parhau i gyflwyno'r rhaglen.

[1] Pwyllgor CLlLCh, Cofnod y Trafodion (RoP) 21 Medi 2017, Paragraff [18]

Roedd y materion a godwyd gan y tystion yn cynnwys:

- Oedi wrth dderbyn taliadau ar ôl i'r cais cychwynnol gael ei wneud. Clywsom y gall pobl fod yn aros hyd at 10 wythnos cyn derbyn taliad. Er y gellir talu blaensymiau, mae'r rhain ar ffurf benthyciadau, felly mae pobl sydd eisoes yn byw ar ymylon fforddiadwyedd mewn dyled ar unwaith, cyn iddynt dderbyn Credyd Cynhwysol. Yn dilyn eich cyhoeddiad yr wythnos hon ynghylch argaeledd blaensymiau, a allech chi egluro ar ba gyfradd y bydd yn rhaid talu'r benthyciad yn ôl. Sut mae argaeledd y benthyciad yn cael ei hysbysebu i hawlwyr?

- Yn gysylltiedig â'r uchod, yw bod taliadau budd-dal tai bellach wedi'u cynnwys yn y taliad incwm personol. Mae hyn yn arbennig o broblemus pan fo oedi o hyd at 10 wythnos cyn derbyn taliadau. Clywsom hefyd y gallai cynnydd mewn cosbau (gweler isod) arwain at gynnydd mewn ôl-ddyledion rhent, ac yn y pen draw, troi allan. Clywsom, er nad yw'r taliad tai yn ddarostyngedig i gosb, os caiff lwfans byw unigolyn ei gosbi, mae'n cael ei roi mewn sefyllfa amhosib o orfod dewis rhwng talu'i rent neu dalu costau hanfodol eraill, megis bwyd. O ganlyniad, mae troi allan a digartrefedd yn risgiau newydd sy'n dod yn sgil credyd cynhwysol.[2]

- Mae'r broses hawlio ar y cyd yn golygu y gellir cosbi cartrefi cyfan yn awr. Mae hawliadau ar y cyd yn gosod pobl mewn perthnasoedd camdriniol o dan anfantais benodol. Awgrymodd y tystion wrthym y dylai'r taliad fynd i'r prif ofalwr yn hytrach na'r prif enillydd, a fyddai'n golygu bod anghenion ariannol plant a'u prif ofalydd yn cael eu blaenoriaethu.

- Ymestyn cosbau i bobl sydd mewn gwaith. Clywsom fod disgwyl i bobl sydd mewn gwaith fynd i'r Ganolfan Byd Gwaith o hyd. Mewn rhai achosion, mae pobl wedi'u cosbi pan nad ydynt wedi gallu ail-drefnu apwyntiadau, na allant eu mynychu am eu bod yn gweithio. Clywsom fod dwysedd

[2] Y Pwyllgor CLlLCh, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2017, Paragraff [8]

amodoldeb, ynghyd â'r gofyniad i fod yn chwilio am swydd 35 awr yr wythnos, yn hynod o anodd ac yn straen.

- Materion gweinyddol o amgylch cosbau. Clywsom y gosodir cosbau yn annisgwyl yn aml, a bod pobl dim ond yn darganfod eu bod yn destun cosb wythnosau neu fisoedd ar ôl y digwyddiad perthnasol. Gall hyn ei gwneud yn anodd i bobl herio'r gosb. Rydym hefyd yn pryderu y bydd cosbau'n berthnasol i rai o'r grwpiau mwyaf agored i niwed. Er ein bod yn ymwybodol bod nifer o grwpiau na ellir eu cosbi, rydym yn pryderu y bydd pobl o fewn y tri grŵp y gellir eu cosbi a allai gael eu hystyried yn agored i niwed.

- Problemau sy'n gynhenid wrth gyflwyno'r rhaglen, er enghraifft y broses hawlio ddigidol yn ôl rhagosodiad. Er ein bod wedi clywed bod rhywfaint o ddarpariaeth ar gael i bobl na allant wneud cais yn ddigidol, gwyddom nad yw hyn ar gael yn eang. Yn ogystal, codir cyfradd premiwm o ran rhif y llinell ffôn. Dywedodd y tystion wrthym mai gweithred syml, ond defnyddiol iawn fyddai pe bai'r rhif yn rhad ac am ddim i'w ffonio, ac mae hwn yn alwad yr ydym ni yn ei gefnogi'n gryf.

- Symud hawddfreintiau allan o ddarpariaeth ffurfiol i ganllawiau, sy'n golygu eu bod wedi dod yn fwy dewisol. Mae hyn yn cyflwyno mwy o amrywiaeth i'r system, ac yn rhoi'r rhai mwyaf agored i niwed mewn perygl.

- Y cyfyngiadau ariannol tynn iawn y mae pobl yn gweithredu ynddynt wrth symud i mewn ac allan o waith. Clywsom, mewn rhai achosion, wrth i enillion gynyddu, y caiff hyd at 63% o'r cynnydd ei dynnu i ffwrdd drwy'r system.

Yng ngoleuni hyn, a phryderon eraill a godwyd yn ystod y sesiwn, hoffem ychwanegu ein lleisiau at y rhestr gynyddol o'r rhai sydd wedi galw arnoch chi i roi'r gorau dros dro i barhau i gyflwyno'r system tra bod rhai o'r materion gweithredol hyn yn cael sylw. Rydym ni'n poeni, wrth i'r gwaith o gyflwyno

gyrraedd achosion mwy cymhleth, os na roddir sylw i'r materion hyn, gallai fod cynnydd sylweddol mewn caledi, amddifadedd a thlodi.

Yn gywir



John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.